

# Meini Prawf Rhyddhad Trethi Cyngor Sir Ddinbych

## 1 Cyflwyniad

Os yw sefydliad yn meddiannu eiddo y mae'n talu Trethi Annomestig Cenedlaethol (NNDR) arno, gall fod yn gymwys i gael Rhyddhad Trethi Dewisol hyd at 100% os yw'n cael ei weithredu o fewn rhai o'r canllawiau canlynol, neu bob un ohonynt, sy'n briodol i'r sefydliad penodol.

Nid bwriad y canllawiau ar gyfer penderfynu ar Ryddhad yw bod yn gyfres anhyblyg o reolau; ac nid yw'r canllawiau'n berthnasol i bob sefydliad chwaith. Bydd pob achos yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod, gan gymryd i ystyriaeth y cyfraniad y mae pob sefydliad / busnes yn ei wneud i amwynderau, amcanion a ffyrdd o fyw a lles preswylwyr y Sir.

## 2 Eiddo Cymwys

<b>Eiddo cymwys ar gyfer Rhyddhad Trethi</b>	<b>Rhyddhad Trethi</b>	<b>Faint o Ryddhad</b>
Eiddo a ddefnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol, sy'n cael ei feddiannu gan elusen gofrestredig neu Glwb Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC) cofrestredig, neu'n gallu dangos yn glir ei fod yn bodloni'r amodau a nodir yn Neddf Elusennau 2006 a 2011.	Gorfodol  Dewisol	80%  20% (uchafswm)
Eiddo a feddiannir yn gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion na fydd yn gwneud elw:  a) Sefydliad neu fudiad arall y mae eu prif amcanion yn ddyngarol neu'n grefyddol neu'n ymwneud â lles cymdeithasol, addysg, gwyddoniaeth, llenyddiaeth neu'r celfyddydau cain.  b) Clwb, cymdeithas neu sefydliad arall ac sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion hamdden.	Dewisol	100% (uchafswm)
Eiddo a feddiannir yn gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion sefydliad gwneud elw:	Dewisol	100% (uchafswm)
Siop Elusen - lle gwerthir nwyddau a gyfrannwyd, yn gyfan gwbl neu'n bennaf.	Gorfodol	80%

### **3 Cwmpas**

Cedwir at y canllawiau gan yr holl staff ac aelodau sy'n ymwneud ag ystyried ceisiadau Rhyddhad Trethi.

### **4 Ceisiadau**

Rhaid i geisiadau gael eu cefnogi gan gyfansoddiad, prif bwrpas ac amcanion y sefydliad e.e. cyfansoddiad ysgrifenedig, memorandwm cysylltiad, rheolau aelodaeth ac ati. Ar gyfer elusennau cofrestredig, bydd y rhain ar gael i'w gweld ar wefan y Comisiwn Elusennau.

Ar gyfer corff sefydledig, bydd angen rhoi cyfres lawn o gyfrifon archwiledig ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf ar ddyddiad y cais. Os yw'r ymgeisydd yn sefydliad neu gwmni sydd newydd ei ffurfio, yna bydd angen copi o'r gyfrifon a ragwelir gyda'r cynllun busnes.

Bydd angen manylion o ran sut y mae'r sefydliadau / busnesau yn bodloni'r meini prawf o fewn y canllawiau.

Y ceisiadau gan fusnesau / sefydliadau wedi'u heithrio na ellir eu hystyried yw'r rhai hynny sydd wedi'u meddiannu gan awdurdod bilio neu awdurdod archebiant e.e. cynghorau Plwyf, Dosbarth neu Sir neu Awdurdodau Heddlu.

### **5 Cyfnod y Rhyddhad**

Bydd rhyddhad yn cael ei roi hyd at gyfnod o ddwy flynedd ar y tro ar y mwyaf, fodd bynnag, bydd adolygiadau interim yn cael eu cynnal yn flynyddol. Bydd caniatáu rhyddhad yn cael ei adolygu ar ddiwedd y cyfnod hwn, a gofynnir i'r rhai sy'n cael rhyddhad gyflenwi neu gadarnhau gwybodaeth berthnasol at ddibenion yr adolygiad.

### **6 Cymeradwyo**

Gwneir argymhellion cychwynnol gan y Swyddog Refeniw (NNDR) gyda chymeradwyaeth derfynol gan y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau.

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod yn ysgrifenedig am unrhyw benderfyniad ynghylch a ydynt yn llwyddiannus ai peidio. Bydd bil diwygiedig yn cael ei anfon lle bo hynny'n briodol.

Nid oes terfyn amser penodol ar gyfer gwneud ceisiadau mewn perthynas â rhyddhad dewisol; fodd bynnag, mae'n rhaid i awdurdodau benderfynu ar geisiadau o fewn chwe mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y gwneir y cais am ryddhad. Os na fydd penderfyniad yn cael ei wneud ar gais am fwy na 6 mis ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y cafodd y cais ei wneud, mae'r penderfyniad yn annilys.

## **7 Pwerau Cyfreithiol**

Rhoddir rhyddhad yn unol â'r ddeddfwriaeth ganlynol fel y bo'n briodol:

- Adran 43 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol (LGFA) 1988
- Adran 47 LGFA 1988
- Adran 47-49 LGFA 1988
- Adran 45 LGFA 1988

## **8 Costau i'r Cyngor**

### **Dosbarthiad Cost Rhyddhad Trethi**

Lle rhoddir rhyddhad atodol, mae'r gost o roi'r rhyddhad hwnnw'n cael ei dalu gan y Gronfa Genedlaethol a Threthdalwyr Sir Ddinbych yn y cyfrannau canlynol:

	<b>Cronfa Genedlaethol</b>	<b>CSDd</b>
Rhyddhad atodol Cyrff Elusennol	25%	75%
Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC)	25%	75%
Sefydliad nid er elw e.e. Clybiau chwaraeon a chymdeithasol,	90%	10%
Rhyddhad Disgresiwn Caledi	75%	25%
Sefydliadau Gwneud Elw	0	100%

## **9 Hawl i Apelio**

Dylai ymgeiswyr aflwyddiannus yn y lle cyntaf roi eu rhesymau'n ysgrifenedig dros beidio â chytuno ag unrhyw benderfyniad gan y Swyddog Refeniw (NNDR). Os ydynt yn parhau i fod yn anfodlon yn dilyn yr ymateb i'r apêl 'gyntaf' hon, dylent ysgrifennu at y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a fydd yn trefnu bod eu hachos yn cael ei ddwyn gerbron y Pennaeth Cyllid ac Asedau ac Aelod Arweiniol y Cabinet.

Os yw'r ymgeisydd yn dal i fod yn anfodlon, yna'n dilyn y gwrandawriad Gorchymyn Atebolrwydd yn Llys yr Ynadon, byddai'n ofynnol iddynt gyflwyno'r manylion perthnasol i'r Uchel Lys am Adolygiad Barnwrol.

## Canllawiau Rhyddhad Trethi

### Rhyddhad Gorfodol

Mae hwn yn cael ei roi lle mae trethdalwr eiddo'n elusen neu'n ymddiriedolwyr elusen a

- bod yr eiddo'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl / yn bennaf at ddibenion elusennol (gan gynnwys siopau elusen, os yw'r nwyddau a werthir yn cael eu cyfrannu'n bennaf, a bod yr enillion yn cael eu defnyddio at ddibenion yr elusen) neu
- fod trethdalwr yr eiddo wedi'i gofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) fel Clwb Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC).

Mae cofrestru o dan Ddeddf Elusennau 1993 fel y'i diwygiwyd yn dystiolaeth derfynol o statws elusennol. Mae cyrff sydd, o dan Ddeddf 1993, yn cael eu heithrio rhag cofrestru neu sy'n elusennau eithriedig hefyd yn gymwys i gael rhyddhad gorfodol.

Gall sefydliadau eraill, nad ydynt wedi'u cofrestru'n benodol fel Elusennau gyda'r Comisiynydd Elusennau, hefyd fod yn gymwys i gael rhyddhad, cyn belled ag y gallant fodloni'r amcanion elusennol fel y nodir gan Ddeddf Elusennau 2006 a 2011.

Bydd CASC â Thystysgrif Gofrestru a gyhoeddir gan HRMC, copi a fydd yn profi eu statws.

Ar yr amod bod y meini prawf uchod yn cael eu bodloni, rhoddir 80% o ryddhad gorfodol. Ariennir hyn yn llawn gan y Gronfa Genedlaethol.

### Rhyddhad Trethi Dewisol

Mae gan y Cyngor y disgresiwn i gynyddu'r rhyddhad trethi hyd at 100%, er mwyn lleihau rhwymedigaeth y trethdalwr ymhellach eto, ac mae'n rhaid dilyn y polisïau a nodir isod wrth ddelio â chais.

Wrth benderfynu a ddylid dyfarnu rhyddhad trethi dewisol, dylid rhoi ystyriaeth i fuddiannau trethdalwyr Sir Ddinbych, gan fod yn rhaid i'r Cyngor dalu canran o gost unrhyw ryddhad a roddir; telir y gweddill gan y Gronfa Trethu Annomestig.

### **Dosbarthiad Cost Rhyddhad Trethi Dewisol**

	<b>Cronfa Genedlaethol</b>	<b>CSDd</b>
Rhyddhad atodol Cyrff Elusennol	25%	75%
CASC	25%	75%
Sefydliadau nad ydynt yn gwneud elw Clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol,	90%	10%
Sefydliadau sy'n Gwneud Elw	0	100%

Nid bwriad y canllawiau ar gyfer penderfynu ar ryddhad yw bod yn gyfres anhyblyg o reolau; ac nid yw'r canllawiau'n berthnasol i bob sefydliad chwaith. Bydd pob achos yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod, gan gymryd i ystyriaeth y cyfraniad y mae pob sefydliad / busnes yn ei wneud i amwynderau a ffyrdd o fyw a lles preswylwyr y Sir.

Mae'r sefydliadau hynny sy'n gwneud cais am ryddhad, y mae eu gwaith yn cynnwys plant ifanc, pobl ifanc neu oedolion diamddiffyn, yn gorfod medru dangos bod gwiriadau priodol wedi'u cynnal ar staff a gwirfoddolwyr, a bod polisiau cadarn diogelu plant yn eu lle.

### **Meini Prawf Rhyddhad Trethi Dewisol 'Atodol' Sefydliadau Elusenol**

Gellir rhoi hyd at 20% o Ryddhad Treth Dewisol. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau.

- Os yw'r elusen yn elusen genedlaethol neu ranbarthol, yn hytrach nag elusen leol, dylid ystyried elusen â chysylltiadau lleol fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.
- Os yw'r sefydliad yn Gymdeithas Dai
- Os oes gan y sefydliad naill ai warged gweithredu sylweddol (dros £25k), neu dros £100k mewn cronfeydd anghyfyngedig.

### **Siopau Elusen**

Bydd rhyddhad gorfodol yn cael ei roi lle bo trethdalwr eiddo yn:

- elusen neu'n ymddiriedolwyr elusen a
- nwyddau a roddwyd yn ymwneud â mwy na 50% o gyfanswm y gwerthiant a
- elw o nwyddau (ar ôl unrhyw ddiidyniadau ar gyfer costau) yn cael eu cymhwyso at ddibenion yr elusen

Ar yr amod bod y meini prawf uchod yn cael eu bodloni, rhoddir 80% o ryddhad gorfodol.

Ni fydd Rhyddhad Treth Dewisol yn cael ei ddyfarnu mewn perthynas â siopau elusen a bydd rhyddhad yn cael ei gyfyngu i'r 80% gorfodol.

## **Sefydliadau, Clybiau a Chymdeithasau nid er elw**

Mae gan y Cyngor y disgrisiwn i ddyfarnu hyd at 100% o Ryddhad Treth Dewisol i sefydliadau sydd â phrif amcanion elusennol neu ddyngarol, neu'n ymwneud ag addysg, lles cymdeithasol, gwyddoniaeth, llenyddiaeth, celfyddyd gain neu hamdden. Mae penderfynu ar statws elusennol i raddau helaeth yn dibynnu ar gyfraith achosion sydd wedi sefydlu 4 prif adran o elusen:

- lleddfu tlodi
- hyrwyddo crefydd
- hyrwyddo addysg ac
- ymddiriedolaethau eraill o fudd i'r gymuned ac nad ydynt yn dod o dan y penawdau eraill.

### **Meini Prawf**

Gellir ond dyfarnu rhyddhad dewisol os nad yw'r sefydliad wedi'i eithrio (awdurdod bilio neu awdurdod archebiant) a

1	Mae prif amcanion y sefydliad yn ymwneud â	<ul style="list-style-type: none"><li>• lleddfu tlodi</li><li>• hyrwyddo crefydd</li><li>• hyrwyddo addysg</li><li>• lles cymdeithasol</li><li>• gwyddoniaeth</li><li>• llenyddiaeth</li><li>• celfyddyd gain</li><li>• hamdden</li><li>• mewn ffyrdd eraill sydd o fudd i'r gymuned</li></ul>
2	Yn diwallu anghenion lleol yn y Sir ac o fudd i bobl leol	<ul style="list-style-type: none"><li>• Os bydd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio at ddibenion sefydliad cenedlaethol neu sefydliad lled-genedlaethol, ni fydd y Cyngor fel arfer yn caniatáu unrhyw ryddhad dewisol.</li><li>• Os bydd yr eiddo'n cael ei ddefnyddio ar gyfer sefydliad lleol, bydd y graddau y mae'r Sir a'i thrigolion yn elwa o'r sefydliad yn cael ei gymryd i ystyriaeth.</li></ul>
3	Yn darparu gwasanaeth gwerthfawr i'r gymuned	<ul style="list-style-type: none"><li>• sy'n ategu at y gwasanaethau hynny a ddarperir gan y Cyngor neu a gefnogir ganddo, neu</li><li>• sy'n lleddfu'r angen i'r Cyngor ddarparu gwasanaethau o'r fath.</li></ul>

4	Yn agored i bob rhan o'r gymuned	<ul style="list-style-type: none"> <li>• neu fod mynediad wedi'i gyfyngu drwy ddarparu gwasanaeth i sector penodol o'r gymuned am resymau y gellir eu cyfiawnhau, fel mynd i'r afael ag anghydraddoldeb</li> </ul>
5	Yn gallu dangos nad yw'r ffordd y mae'n gweithredu yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw ran o'r gymuned	<ul style="list-style-type: none"> <li>• gweler (1) isod</li> </ul>
6	Nid yn gwneud elw	<ul style="list-style-type: none"> <li>• fel canllaw, dim mwy na 12 mis o wariant mewn cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig, oni bai fod Cynllun Busnes yn bodoli sy'n manylu ar sut y dylid defnyddio'r cronfeydd wrth gefn hyn er budd y gymuned leol</li> </ul>

Os yw'r sefydliad â chyfleusterau bar trwyddedig - gweler (2) isod.

Os yw'r sefydliad yn gofyn am ffi aelodaeth neu fynediad - gweler (3) isod.

### **(1) Gwahaniaethu**

Er mwyn cymhwyso ar gyfer Rhyddhad Trethi Dewisol, mae'n rhaid i glybiau allu dangos bod yr holl gyfleusterau ar gael i aelodau heb wahaniaethu. Mae gwahaniaethu yn cynnwys gwahaniaethu anuniongyrchol ac mae'n cwmpasu:

- Gwahaniaethu ar sail ethnigrwydd, cenedligrwydd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd neu gredoau.
- Gwahaniaethu ar sail rhyw, oedran neu anabled, (ac eithrio o ganlyniad angenrheidiol i ofynion camp arbennig).

Nid yw hyn yn rhwystro clwb rhag cael gwahanol ddsbarthiadau o aelodaeth yn dibynnu ar:

- Oedran yr aelod
- A yw'r aelod yn fyfyrwr
- A yw'r aelod yn gyflogedig neu'n anghyflogedig
- A yw'r aelod yn chwarae neu'n aelod nad ydyw'n chwarae
- Pa mor bell oddi wrth y clwb mae'r aelod yn byw neu
- Unrhyw gyfyngiad ar y diwrnodau neu'r amseroedd y mae gan yr aelod fynediad i gyfleusterau'r clwb

## **Clybiau Chwaraeon**

Mae ystyriaethau ychwanegol yn achos clybiau chwaraeon. Os yw clwb fwy neu lai'n gwahaniaethu gan dderbyn aelodau sydd eisoes wedi cyrraedd safon benodol yn unig, yn hytrach na cheisio hyrwyddo cyrhaeddiad rhagoriaeth drwy wella mynediad a datblygu dawn mewn chwaraeon, yna nid oes ganddo bolisi aelodaeth agored. Mae'n naturiol na fyddai clwb sy'n dewis aelodau ar sail cyrhaeddiad presennol yn dod o fewn y gofynion.

Er dylai clybiau fod yn agored i bawb heb wahaniaethu, gall clybiau un rhyw gael eu caniatáu lle nad yw cyfyngiadau o'r fath yn fwriadol wahaniaethol, ond yn ganlyniad gwirioneddol o gyfyngiadau ffisegol (fel cyfleusterau ystafelloedd newid) neu ofynion y gamp.

### **(2) Sefydliadau gyda Chyfleusterau Bar Trwyddedig**

#### **Clybiau Chwaraeon/Sefydliadau Eraill**

Bydd unrhyw ddyfarniad o Ryddhad Trethi Dewisol yn cael ei anelu at weithgaredd chwaraeon y clwb.

- Os yw incwm y bar yn cynorthwyo gweithrediad a datblygiad cyffredinol y sefydliad, byddai hyn yn cael ei ganiatáu cyn belled â bod y gweithgaredd chwaraeon yn parhau i fod yn amcan cyffredinol y sefydliad. Dylid nodi y dylai incwm y bar fod yn ategol i'r brif swyddogaeth, yn hytrach na'r brif swyddogaeth. Bydd hyn yn arbennig o berthnasol lle mai'r sefydliad yw'r unig un o'r fath yn y Plwyf.

### **(3) Ffioedd Aelodaeth a Mynediad**

Os yw'r sefydliad yn gofyn am ffi aelodaeth neu fynediad, bydd y Cyngor yn ystyried:

- Tanysgrifiad neu ffioedd sy'n rhy uchel, sy'n eithrio'r gymuned gyffredinol.
- Gostyngiadau ffioedd yn cael eu cynnig ar gyfer rhai grwpiau fel unigolion dan 18 oed neu dros 60 oed.
- Aelodaeth yn cael ei hannog gan grwpiau penodol fel pobl ifanc, grwpiau oedran hŷn, pobl ag anableddau neu leiafrifoedd ethnig
- Mae cyfleusterau ar gael i bobl heb law am aelodau e.e. ysgolion, sesiynau cyhoeddus.
- Dylai 75% o aelodau'r Clybiau/sefydliadau fyw yn ardal Sir Ddinbych.

Pan fydd y Cyngor yn rhoi rhyddhad, yr arferiad yw dyfarnu 100% i Glybiau a sefydliadau, a 25% i Glybiau Golff sy'n gweithredu cyfleusterau bar.



## **Clybiau Chwaraeon Amatur Cymunedol (CASC)**

Os yw clwb chwaraeon wedi'i gofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) fel CASC, bydd â'r hawl i gael rhyddhad gorfodol o 80%. Efallai y bydd y clwb hefyd yn cael rhyddhad trethi dewisol o 20%. Fel arfer, ni fydd clybiau chwaraeon yn cael eu dyfarnu â rhyddhad trethi dewisol os ydynt yn gallu cofrestru gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel CASC, ac heb wneud hynny.

Mae manylion ar gael ar wefan yr HRMC.

<http://www.hmrc.gov.uk/casc/index.htm>

## **Sefydliadau Gwneud Elw**

O 1 Ebrill 2012, mae gan y Cyngor y disgrisiwn i ddyfarnu hyd at 100% o Ryddhad Trethi Dewisol i sefydliadau sy'n gwneud elw. Dylai pob cais ddod gyda chopi o'r cynllun busnes a rhagolwg llif arian ar gyfer y datblygiad ac, yn achos cwmnïau sefydledig, gopi cyfredol o'r cyfrifon masnachu presennol, yn gystal â chopïau o gyfrifon archwiliedig y ddwy flynedd ddiwethaf.

- A. Ni ddylai'r Awdurdod fabwysiadu ymagwedd unffurf o naill ai roi neu beidio â rhoi rhyddhad, oherwydd dylid ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.
- B. Bydd unrhyw gais yn ystyried yr effaith ar hyrwyddo Sir Ddinbych a'i chyfleusterau yn gadarnhaol.
- C. Lle byddai rhoi'r gostyngiad yn cael effaith anffafriol ar fuddiannau ariannol trethdalwyr lleol, gallai'r achos dros leihau trethi at ei gilydd fod yn fwy na'r gost i drethdalwyr lleol.
- D. Gall 'buddiannau' trethdalwyr lleol mewn ardal fod yn ehangach na buddiannau ariannol uniongyrchol. Er enghraifft, pe bai rhagolygon cyflogaeth yn gwaethygu oherwydd bod cwmni yn trosglwyddo i ranbarth arall y tu allan i Sir Ddinbych, neu fod amwynder ardal yn cael ei golli drwy, er enghraifft, golli'r unig siop mewn pentref.
- E. Bydd rhyddhad dewisol ond yn cael ei ddyfarnu i fusnes sy'n masnachu o'r cyfeiriad y gwneir yr hawliad.
- F. Fel arfer bydd y rhyddhad yn cael ei roi mewn perthynas â chwmnïau newydd, neu gwmnïau sy'n ehangu ac yn symud i adeilad mwy, sy'n gallu dangos y bydd y busnes yn dod â buddion newydd neu gynyddol i'r gymuned leol, ac y bydd yn datblygu ac yn gwella'r ardal leol.
- G. Bydd y rhyddhad hwn yn cael ei ganiatáu am gyfnod o chwe mis. Os gofynnir am gyfnod pellach, yna bydd cais pellach, ynghyd â chopi cyfredol o'r cyfrifon masnachu cyfredol, yn cael eu rhoi o fewn 30 diwrnod o ddiwedd y cyfnod hwn.

## Rhyddhad Caledi

Gellir dyfarnu rhyddhad o hyd at 100%.

Gofynion deddfwriaethol (Adran 49, Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988) -

Mae gan yr awdurdod bilio'r grym i ostwng y swm y mae'n rhaid i unigolyn ei dalu, cyn belled bod yr Awdurdod yn fodlon fod y canlynol yn berthnasol:

- Byddai'r trethdalwr yn dioddef caledi pe na bai'r awdurdod yn rhoi rhyddhad; ac
- Mae'n rhesymol i'r Awdurdod roi rhyddhad ar ôl rhoi ystyriaeth lawn i fuddiannau Trethdalwyr y Cyngor.

Er nad oes diffiniad statudol o galedi, mae'r llywodraeth wedi darparu rhywfaint o ganllawiau i gynorthwyo wrth ystyried ceisiadau caledi.

- H. Ni ddylai'r Awdurdod fabwysiadu ymagwedd unffurf o naill ai roi neu beidio rhoi rhyddhad, dylid ystyried pob cais yn ôl ei rinweddau ei hun.
- I. Dylai unrhyw ryddhad a roddir fod yn eithriad yn hytrach nac yn arferiad.
- J. Ni ddylid cyfyngu'r prawf caledi i faterion 'ariannol'. Dylid ystyried pob ffactor perthnasol sy'n effeithio ar allu busnes i ateb ei rwymedigaeth i dalu trethi
- K. Gall 'buddiannau' trethdalwyr lleol mewn ardal fod yn ehangach na buddiannau ariannol uniongyrchol. Er enghraifft, pe bai rhagolygon cyflogaeth yn yr ardal yn gwaethygu oherwydd bod cwmni yn mynd i'r wal, neu fod amwynder ardal yn cael ei golli drwy, er enghraifft, golli'r unig siop mewn pentref.
- L. Lle byddai rhoi'r gostyngiad yn cael effaith anffafriol ar fuddiannau ariannol trethdalwyr lleol, gallai'r achos dros leihau trethi at ei gilydd fod yn fwy na'r gost i drethdalwyr lleol.

## **Canllawiau Polisi'r Cyngor ar gyfer Rhyddhad Caledi**

- A. Rhaid i unrhyw benderfyniad fod yn gytbwys yn erbyn buddiannau ehangach trethdalwyr y Sir.
- B. Rhaid cael prawf bod caledi yn bodoli.
- C. Rhaid darparu tystiolaeth i gefnogi'r cais.
- D. Dylid darparu copi o gyfrifon archwiliedig y ddwy flynedd flaenorol ar gyfer y sefydliad.
- E. Bydd swm y trethi a fydd yn cael eu dileu yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos.
- F. Bydd ceisiadau'n effeithiol am gyfnod penodol ac yna efallai y byddant yn cael eu hadolygu. Bydd rhyddhad yn cael ei dynnu'n ôl ar werthiant y busnes.
- G. Diben y polisi hwn yw cefnogi busnesau lleol yn y gymuned.

Diwallir 25% o gost y rhyddhad hwn gan yr Awdurdod.